**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

20 Medi 2018

Annwyl Nick

**Ymchwiliad i drefn reoleiddio'r cymdeithasau tai-diweddariad**

Yr wyf yn falch o amgau diweddariad Llywodraeth Cymru o Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ymchwiliad I Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai yn Nghymwu 2017.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

**Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus –Ymchwiliad i Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru 2017**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi diweddariad ar y cynnydd o ran y 15 argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dyddiedig 24 Awst 2018. Mae'r diweddariad wedi cael ei ychwanegu at yr argymhelliad a'r ymateb gwreiddiol er cyflawnder.
Mae'r statws presennol yn ymwneud â'r argymhellion gwreiddiol yn unig ac nid unrhyw ddatblygiadau neu fentrau pellach y cyfeirir atynt yn rhai o'r diweddariadau.

**Argymhelliad 1**.
O gofio'r swm sylweddol o arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector, a'r ddibyniaeth a roddir gan fenthycwyr ar reoleiddio effeithiol, rydym yn argymell y rhoddir caniatâd i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru recriwtio'n allanol fel mater o drefn a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ar ei thîm rheoleiddio.
**Derbyniwyd yn rhannol** - Pan fydd recriwtio mewnol yn methu canfod ymgeiswyr gyda'r cydbwysedd sgiliau priodol, byddwn yn gofyn caniatâd i recriwtio'n allanol ac yn gyhoeddus yn unol â pholisi recriwtio cyfredol Llywodraeth Cymru. Dylid nodi bod dwy allan o'r tair swydd wag ddiwethaf wedi cael eu llenwi drwy benodiadau allanol. Bydd cydbwysedd sgiliau priodol o fewn y tîm yn cael ei sicrhau drwy feithrin gallu o fewn y tîm neu wrth recriwtio os yw bylchau mewn sgiliau penodol wedi eu nodi, gan gynnwys gan Fwrdd Rheoleiddio Cymru (gweler Argymhelliad 2).
**Diweddariad** – Yn dilyn gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog, mae statws yr argymhelliad hwn wedi cael ei newid o **Derbyniwyd yn Rhannol** i **Gwrthodwyd**.
**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 2.**
Ar ben hynny, er budd tryloywder rydym yn argymell y dylai Bwrdd Rheoleiddio Cymru, yn ei adroddiad blynyddol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y tîm rheoleiddio, a fydd, yn ysbryd cyd-reoleiddio yn galluogi rhanddeiliaid eraill i graffu ar allu Llywodraeth Cymru i reoleiddio.
**Derbyniwyd** - Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru wedi ymateb yn annibynnol i argymhellion yr adroddiad. Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y bydd ei adroddiadau blynyddol yn cynnwys rhan sy'n ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y Tîm Rheoleiddio. Disgwylir yr adroddiad nesaf yn haf 2018.
**Diweddariad** – Mae'r Bwrdd Rheoleiddio wrthi'n datblygu dull newydd o lunio ei Adroddiad Blynyddol, ac o ganlyniad bydd oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad, tan hydref 2018.
**Statws** –Diwygiwyd y targed o haf 2018 i disgwylir yn ystod hydref 2018.

**Argymhelliad 3.**
Dylai Bwrdd Rheoleiddio Cymru fod yn her effeithiol i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru. O ystyried natur sensitif rhai materion a drafodir gan y Bwrdd, roedd yn

anodd i'r Pwyllgor benderfynu pa mor effeithiol y mae'r her honno wedi bod. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn ystyried sut y gellir bod yn fwy agored a thryloyw o ran y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.
**Derbyniwyd** - Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru wedi ymateb yn annibynnol i argymhellion yr adroddiad. Bydd y Bwrdd yn ystyried sut y gellir bod yn fwy agored a thryloyw eleni gyda'r bwriad o gynnwys yn eu hadroddiad blynyddol grynodeb o'r agweddau penodol fu o her arbennig i'r tîm rheoleiddio. Yn ogystal, bydd yn parhau i gyhoeddi crynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd, lle nad yw'r trafodaethau yn gyfrinachol, gan nodi sut y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'r tîm rheoleiddio ac yn ei herio.
**Diweddariad** - Mae'r Bwrdd Rheoleiddio wrthi'n datblygu dull newydd o lunio ei Adroddiad Blynyddol, ac o ganlyniad bydd oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad, tan hydref 2018.
**Statws** –Diwygiwyd y targed o haf 2018 i disgwylir yn ystod hydref 2018.

**Argymhelliad 4.**
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer sicrhau bod setiau data clir a chymaradwy ar gael i gynorthwyo tenantiaid wrth benderfynu ar safbwynt a pholisïau eu Cymdeithas Dai, a herio hynny. Roedd yr hyn a wneir yn y maes hwn gan Reolydd Tai yr Alban wedi creu argraff arnom, a hoffem annog Llywodraeth Cymru i fynd ati yn yr un modd.
**Derbyniwyd** - Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig tenantiaid, er mwyn sicrhau fod data priodol ar gael erbyn mis Hydref 2018. Fel y datblygir y set ddata ar gyfer Cymru, byddwn yn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth brofiad yr Alban. Gweler hefyd Argymhelliad 9.
**Diweddariad** – Cafodd y rhyngwyneb defnyddwyr ar gyfer y set ddata arfaethedig ei brofi yn ddiweddar gan banel bach o denantiaid. Roedd ei ymateb yn gadarnhaol a bydd y gwaith o orffen a chyhoeddi'r data yn mynd rhagddo. Bydd data perfformiad a gyhoeddir ar gael i denantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill ym mis Hydref 2018.
**Statws** – Disgwylir cyhoeddi ym mis Hydref 2018

**Argymhelliad 5.**
O ystyried y ddibyniaeth ar hunan-arfarnu o fewn y broses reoleiddio ac ar ôl clywed adborth gan denantiaid nad oedd y system bob amser yn gadarn neu'n gywir, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd ei bod yn fodlon y caiff safbwyntiau tenantiaid eu cofnodi'n iawn a'u hadlewyrchu yn y dyfodol ac y caiff y trefniadau ymgysylltu newydd â thenantiaid a wneir gan TPAS Cymru eu monitro'n ofalus.
**Derbyniwyd** - Mae cynnwys tenantiaid mewn modd effeithiol a phriodol yn rhan annatod o'r safonau perfformiad (SP2) o dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig a bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio. Bydd unrhyw ddiffygion gyda'r gwaith hwn yn cael eu hamlygu gan yr adolygiad ar y fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018. Ar ben hyn, mae trefniadau newydd TPAS Cymru ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid yn cael eu monitro'n agos gan Grŵp Cyflawni sy'n cael ei gadeirio gan y Bwrdd Rheoleiddio. Caiff effaith gyffredinol y trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid eu harolygu'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2018.

**Diweddariad** – Nid amlygodd yr adolygiad o'r Fframwaith Rheoleiddio broblemau sylweddol mewn perthynas â chadernid SP2 ar ddechrau 2018. Cafodd y gwaith a wnaeth TPAS Cymru ei adolygu gan Fwrdd Rheoleiddio Cymru ar 29 Mawrth a daeth i'r casgliad ei fod yn fodlon ar y trefniadau presennol ar gyfer casglu barn tenantiaid ac y dylai'r contract "Cyflawni" gael ei ymestyn am flwyddyn arall. Caiff effeithiolrwydd trefniadau i glywed llais tenantiaid, o ran y Rheoleiddiwr a'r sector cymdeithasau tai ehangach, ei ystyried eto gan y Bwrdd pan fydd ei adolygiad thematig o roi sylw canolog i denantiaid 2018 wedi'i gwblhau, sydd yn y cyfnod cwmpasu ar hyn o bryd.
**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 6.**
Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwneud gwahaniaeth clir rhwng tryloywder a chraffu, gyda thryloywder yn angenrheidiol, ond heb fod yn ddigonol i gyflawni craffu, ac rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob Cymdeithas Dai allu dangos i'r Tîm Rheoleiddio sut y maent yn grymuso eu tenantiaid i graffu ar eu perfformiad. Credwn y dylai hyn fynd y tu hwnt i gyhoeddi gwybodaeth a galluogi gwahanol Gymdeithasau Tai i ymateb i'w hamgylchiadau lleol lle mae gofyn iddynt fod yn rhagweithiol yn eu hagwedd. Dylai'r camau hyn yn fod yn rhan annatod o ddangos cyfranogiad effeithiol a phriodol tenantiaid fel rhan o'r Safonau Perfformiad.
**Derbyniwyd** - Mae gallu tenantiaid i graffu ar berfformiad Cymdeithasau Tai yn rhan annatod o Safon Perfformiad 2. Bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio. Caiff unrhyw ddiffygion yn y gwaith hwn eu hamlygu gan yr adolygiad ar y fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018.
**Diweddariad** - Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi cytuno i argymhellion Bwrdd Rheoleiddio Cymru sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol o'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig (gan gynnwys SP2). Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y fframwaith, a'i amrywiol elfennau, ar y cyfan, yn addas at y diben.
Nid oedd unrhyw themâu cyson neu sylweddol yn galw am adolygu'r safon perfformiad sy'n ymwneud ag ymgysylltiad tenantiaid. Fodd bynnag, bydd y Tîm Rheoli Rheoleiddio yn gweithio i fynd i'r afael â materion ynghylch gwybodaeth am y fframwaith a'r ffordd y mae'n gweithio a dealltwriaeth o hynny. Y rheswm am hyn yw bod rhai ymatebion yn awgrymu nad yw'r holl grwpiau ymateb, gan gynnwys tenantiaid, yn deall y fframwaith a diben yr elfennau amrywiol, gan gynnwys y safonau perfformiad, yn llwyr. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys diben a chynnwys yr adroddiadau barn a natur y datganiadau cydymffurfio. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys gweithio gyda TPAS i wella'r ffordd o gyfathrebu'r fframwaith i denantiaid a hefyd atgyfnerthu'r cyfathrebu â grwpiau eraill o randdeiliaid. Awgrymir y bydd hyn yn cynnwys ail-lansiad meddal o'r fframwaith tua ddiwedd 2018, ar ôl i'r holl argymhellion gael eu rhoi ar waith.
**Statws** - Cwblhawyd

**Argymhelliad 7.**
Nodwn ystyriaeth Llywodraeth Cymru o dalu aelodau bwrdd fel rhan o'i hystyriaeth ehangach ar reoleiddio. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i alluogi cymdeithasau tai i benderfynu a ydynt am dalu aelodau eu bwrdd ai peidio, ac y rhoddir cyfrifoldeb i gymdeithasau tai dros bennu'r tâl hwnnw mewn

ffordd sy'n agored a thryloyw. Dylai taliadau i Aelodau Byrddau gael eu datgelu'n briodol yng Nghyfrifon Blynyddol Cymdeithasau Tai.

**Derbyniwyd** - Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth fuan i alluogi cymdeithasau tai i benderfynu a ydynt am dalu aelodau eu bwrdd ai peidio. Disgwylir cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2017.

Mae cyfrifoldebau cymdeithasau tai parthed talu aelodau eu bwrdd a datgelu'r cyfryw daliadau i aelodau eu bwrdd wedi eu nodi yng Nghod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC Cod B2.1). Mae cydymffurfio â'r cod yn rhan angenrheidiol o'r safonau perfformiad newydd (SP1) ac felly yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio.

**Diweddariad** – Cafodd llythyr yn nodi'r polisi newydd ei anfon at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fis Hydref 2017 yn cadarnhau bod y penderfyniad i dalu aelodau'r Bwrdd ai peidio yn benderfyniad unigol ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol cofrestredig.

**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 8.**

Rydym yn croesawu'r adolygiad arfaethedig o lywodraethu o fewn y sector a hoffem annog Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos â Chartrefi Cymunedol Cymru tra mae'n diweddaru ei God Llywodraethu yn sgil canfyddiadau'r adolygiad.

**Derbyniwyd** - Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio yn agos gyda'r sector a gyda grwpiau sy'n cynrychioli tenantiaid drwy'r Grŵp Llywio a ffurfiwyd i arwain gwaith y Bwrdd Rheoleiddio o adolygu materion llywodraethu, a byddwn yn parhau i gydweithio yn y modd hwn. Bydd canfyddiadau'r adolygiad ar lywodraethu yn cael eu hystyried pan fydd CCC yn diweddaru ei God Llywodraethu. Cwblheir yr adolygiad o lywodraethu erbyn mis Mawrth 2018.

**Diweddariad** - Dyma ddolen i'r adroddiad Llywodraeth: https://gov.wales/docs/desh/publications/180307-housing-association-governance-progress-review-cy.pdf

Mae cysylltiad agos â Cartrefi Cymunedol Cymru yn parhau. Mae grŵp arwain syniadau yn anelu at ddarparu arweinyddiaeth ir sector ar lywodraethu, wedi'i gomisiynu ar y cyd gan y Bwrdd Rheoleiddio a Cartrefi Cymunedol Cymru, wrthi'n cael ei sefydlu i lywio'r agenda gwella trefniadau llywodraethu a'r argymhellion o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu.

**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 9.**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi dulliau ar waith ar gyfer adrodd a meincnodi gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'r sector yn perfformio. Rydym yn argymell hefyd y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan ganolog, ynghyd â setiau data eraill fel y nodir yn Argymhelliad 4.

**Derbyniwyd** - Bydd meincnodi perfformiad y sector yn ffurfio rhan o'r gwaith y cyfeiriwyd ato yn Argymhelliad 4. Ein bwriad yw cyhoeddi'r data ar un platfform, o bosib gwefan Llywodraeth Cymru.

**Diweddariad** – Gweler Argymhelliad 4. Yn ogystal, bydd ail gyfnod o waith yn dechrau yn ystod hydref 2018. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys tenantiaid, i ddatblygu cyfres gadarnach o ddata

perfformiad, platfform ar gyfer cyhoeddi a threfniadau i gefnogi defnydd effeithiol o'r data.
**Statws** – Disgwylir cyhoeddi yn ystod mis Hydref 2018.

**Argymhelliad 10.**
Rydym yn argymell bod unrhyw ddadreoleiddio o ran y sector sy'n angenrheidiol i wyrdroi penderfyniad SYG yn gymesur ac yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, fel rheoleiddiwr, ddigon o bwerau o hyd i ddiogelu buddiannau rhanddeiliaid, yn arbennig tenantiaid.
**Derbyniwyd** – Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth ar leihau rheolaethau rheoleiddio, bu'n gwbl eglur y dylai'r diwygiadau rheoleiddio fodloni'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau bod y sector yn cael ei ddosbarthu'n ôl yn rhan o'r sector preifat. Disgwylir y caiff y Bil ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Hydref 2017. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn sicrhau y bydd yr agweddau rheoleiddio yn parhau'n rymus.
**Diweddariad** – Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bod yn ailddosbarthu'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru ar 27 Mehefin 2018. Daeth prif ddarpariaethau'r Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 i rym ar 15 Awst 2018. Mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud y newidiadau gofynnol lleiaf posibl er mwyn cyflawni'r ailddosbarthu. Mae'r fframwaith rheoleiddio newydd yn parhau i ddarparu'r offer angenrheidiol i gynnal rheoleiddio grymus.
**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 11.**
Nodwn fanteision posibl arallgyfeirio. Er bod angen arallgyfeirio i draws-gymorthdalu tai fforddiadwy, credwn fod risgiau difrifol i'r sector os na chaiff hyn ei reoli'n effeithiol. Er y byddai penderfyniad ail-ddosbarthu'r SYG yn rhybuddio yn erbyn rheolaeth bellach Llywodraeth Cymru o sut y mae cymdeithasau tai yn rhedeg eu materion eu hunain, credwn bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio arallgyfeirio. Mae hyn yn arbennig o wir lle y caiff ei wneud gan is-gwmni landlord cymdeithasol sydd heb gofrestru.
**Derbyniwyd** - Bwriad y fframwaith rheoleiddio newydd yw sicrhau y caiff risgiau arallgyfeirio eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn hanfodol i'r Safonau Perfformiad newydd (SP 1, 3 ac 8) a bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio. Caiff unrhyw ddiffygion yn y gwaith hwn eu hamlygu gan yr adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018.
**Diweddariad** – Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi cytuno i'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol o'r fframwaith rheoleiddio a gynhaliwyd ddechrau 2018. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y fframwaith a'i amrywiol elfennau, ar y cyfan, yn addas at y diben. Nid oedd unrhyw themâu cyson neu sylweddol yn galw am ddiwygio'r safon perfformiad yn ymwneud â busnes newydd ac arallgyfeirio. Gweler hefyd Argymhelliad 12.
**Statws** – Cwblhawyd

**Argymhelliad 12.**
Rydym yn argymell y dylai'r ddogfen Risgiau'r Sector a Disgwyliadau Rheoleiddio ddarparu manylion pellach am ddiddordeb dilys Llywodraeth Cymru mewn is-

gwmnïau landlordiaid cymdeithasol nad ydynt wedi cofrestru ac amlinellu enghreifftiau a fyddai'n peri pryder i'r Rheoleiddiwr.
**Derbyniwyd** - Bydd sylwebaeth fwy manwl ar y pwnc yma yn cael ei chynnwys yn y ddogfen nesaf ar Risgiau'r Sector a gaiff ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2018.
**Diweddariad** – Mae trosolwg o risg y Sector wedi cael ei ymgorffori yn y ddogfen cyfrifon cyffredinol blynyddol (Mai 2018) sy'n gyhoeddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'n cynnwys sylwadau ar is-gwmnïau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Dyma'r ddolen i'r cyhoeddiad:
**https://gov.wales/docs/desh/publications/180719-fnancial-statements-of-housing-associations-2017-cy.pdf**
**Statws** - Cwblhawyd

**Argymhelliad 13.**
Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o lefelau cyfredol arallgyfeirio o fewn y sector - ac y dylai'r canfyddiadau hyn gael eu cyhoeddi.
**Derbyniwyd** – Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad cryno o'r risg yma ar draws y sector pan gaiff y papur nesaf ar Risgiau'r Sector ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.
**Diweddariad** - Mae trosolwg o risg y Sector wedi cael ei ymgorffori yn y ddogfen cyfrifon cyffredinol blynyddol (Mai 2018) sy'n gyhoeddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'n cynnwys adolygiad o lefelau presennol arallgyfeirio ac yn nodi cynlluniau ar gyfer monitro wrth symud ymlaen. Gweler uchod y ddolen i'r cyhoeddiad.
**Statws** - Cwblhawyd

**Argymhelliad 14.**
Mae gennym bryderon ynghylch yr effaith y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei chael ar y sector tai yng Nghymru. Rydym yn argymell bod y Rheoleiddiwr yn cynnal asesiad o gyfalaf yr holl gymdeithasau tai a lefel y risgiau y maent yn eu hwynebu a chrynhoi'r canfyddiadau.
**Derbyniwyd** - Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad cryno o'r effaith y byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei chael ar gyfalaf cymdeithasau tai pan gaiff y papur nesaf ar Risgiau'r Sector ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Cynhelir trafodaethau unigol gydag unrhyw Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd yn cario risg uwch na'r ystod arferol.
**Diweddariad** - Mae trosolwg o risg y Sector wedi cael ei ymgorffori yn y ddogfen cyfrifon cyffredinol blynyddol (Mai 2018) sy'n gyhoeddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'n cynnwys asesiad o gyfalaf Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sylwadau ar y risg a fyddai'n gysylltiedig â chynnydd posibl mewn cyfraddau llog. Gweler uchod y ddolen i'r cyhoeddiad.
**Statws** - Cwblhawyd

**Argymhelliad 15.**
Gan ystyried nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau o ran pennu cyflogau uwch reolwyr cymdeithasau tai, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ail-bwysleisio a chymeradwyo pwysigrwydd bod yn agored ac yn dryloyw o ran pennu

cyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu mesurau i sicrhau bod gan ei Thîm Rheoleiddio rôl allweddol o ran sicrhau bod y broses o bennu cyflog yn gadarn a bod datgeliad priodol o gyflogau uwch reolwyr yng Nghyfrifon Blynyddol Cymdeithasau Tai.

**Derbyniwyd** - Mae trefniadau parthed pennu cyflogau uwch reolwyr a datgelu cyflog Prif Weithredwyr wedi eu cynnwys o fewn Cod Llywodraethu CCC. Hefyd, mae'n ofynnol i gyhoeddi tâl y swyddog gyda'r cyflog uchaf yn y cyfrifon statudol yn ogystal â chyhoeddi nifer yr uwch swyddogion o fewn bandiau cyflog sy'n cael eu pennu gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig unigol. Mae cydymffurfio â'r cod yn rhan hanfodol o'r safonau perfformiad newydd (SP 1) ac felly yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio.

**Diweddariad** - Ceir goruchwyliaeth reoleiddiol o drefniadau pennu cyflogau fel sy'n briodol. Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn nodi argymhellion cyn bo hir ar gyfer tryloywder ychwanegol ynghylch pennu cyflogau ac adrodd ar gyflogau gyflog uwch reolwyr.

**Statws** - Cwblhawyd